Papur y Bwrdd

02 Hydref 2014

Teitl y Papur:	**Cynnydd o ran datblygu dull o adrodd ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B B 72.14**
Paratowyd y Papur gan:	David Allen

Pwrpas y Papur:	**Gwybodaeth**
Argymhelliad:	Nodi'r cynnydd
Angen Penderfyniad:	Dim

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc.	**Effaith ar yr Amgylchedd:** Rhan o rôl yr adroddiad yw llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau ac ymyriadau eraill sy'n ceisio rheoli effeithiau amgylcheddol a gwarchod a gwella'r amgylchedd. **Effaith ar yr Economi:** Bydd yr adroddiad yn ceisio adlewyrchu sut mae sefyllfa adnoddau naturiol Cymru yn effeithio ar yr economi ac o fudd iddo. **Effaith ar y Gymuned:** Bydd yr adroddiad yn ceisio adlewyrchu sut mae sefyllfa adnoddau naturiol Cymru yn effeithio ar gymdeithas ac o fudd iddi. Bydd yr adroddiad yn ceisio cyfleu gwybodaeth am adnoddau naturiol a'r modd y cânt eu rheoli a'u defnyddio mewn ffordd hygyrch, gan gyfeirio at ddata sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd. **Effaith ar Wybodaeth:** Bydd yr adroddiad yn dwyn ynghyd a chrynhoi'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn bennaf, er y gall fod angen datblygu dangosyddion newydd a data sy'n sail iddyn nhw lle nad oes digon ar hyn o bryd.

Pwnc

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ein gwaith i ddatblygu dull o Adrodd ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Crynodeb

2. Mae’r cynlluniau ar gyfer adrodd amgylcheddol yng Nghymru yn parhau i ddatblygu ochr yn ochr â datblygiad Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r sefyllfa bresennol o ran y gwaith o ddatblygu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN).

Cefndir

3. Mae'r Bwrdd eisoes wedi gweld papurau yn disgrifio, yn gyntaf, ein cynlluniau i ddatblygu adroddiad ar sefyllfa’r amgylchedd yng Nghymru, ac yn fwy diweddar, sut mae hyn wedi datblygu i fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt adrodd ar adnoddau naturiol. Yn amodol ar Bil yr Amgylchedd yn cael ei basio yng Ngwanwyn 2016, bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd statudol newydd i gynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN) bob 5 mlynedd, gyda’r adroddiad cyntaf i’w gyhoeddi ym mis Medi 2016. Cyn hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu adroddiad interim ym mis Tachwedd 2014, er mwyn dangos - cyn cyflwyno Bil yr Amgylchedd yng Ngwanwyn 2015 - sut olwg allai fod ar fersiwn statudol cyntaf yr AaSAN, ac i alluogi rhanddeiliaid i lywio ei strwythur a’i gynnwys. Bydd yr adroddiad interim yn tynnu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ynghylch dulliau o asesu ecosystemau er mwyn helpu i lywio drafft cyntaf Datganiad Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy’n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae'r gwaith i ddatblygu AaSAN yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio sy'n cynnwys staff o Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi cytuno ar ddogfen sy'n nodi ei ddealltwriaeth ar y cyd o nifer o agweddau allweddol ar y fenter (Atodiad 1). Mae rhan o hyn wedi arwain at wneud y disgwyliadau ynghylch yr adroddiad yn fwy eglur.
   - Ni fydd yr adroddiad interim yn fersiwn gyntaf o AaSAN, ond bydd o natur wahanol. Bydd o natur enghreifftiol, gan nodi sut olwg allai for ar yr AaSAN maes o law, gan dynnu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael am ddulliau o asesu ecosystemau. Bydd hefyd yn gweithredu, ar ôl mis Tachwedd, fel sail i ymgysylltu â grŵp ehangach o bartïon mewn trafodaeth am yr AaSAN.
   - Bydd angen i AaSAN i ddatblygu dros y tymor hir, ac ni fydd pob elfen o'r AaSAN cyntaf (i’w gyhoeddi ym mis Medi 2016) yn cael ei datblygu'n llawn.
   - Mae’r AaSAN yn rhan o amrywiaeth ehangach o weithgareddau sy'n ymwneud â thystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi rheoli adnoddau naturiol (NRM). Dylai ffrwd waith 'tystiolaeth ac offer' y Dull Ecosystem a’r Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol ddod â phob un o'r rhain at ei gilydd.

5. Canlyniad y pwyntiau hyn gyda’i gilydd oedd gwneud y dasg o gynhyrchu'r adroddiad interim ar unwaith yn fwy ymarferol o fewn yr amserlen a ddiffiniwyd.

6. Wrth i ni gynhyrchu'r adroddiad interim, mae Llywodraeth Cymru ar yr un pryd yn paratoi drafft cyntaf o ddatganiad Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, a fydd, yn yr un modd, yn llywio'r broses o ddatblygu dogfen bolisi statudol (Rhagfyr 2016).

Bydd y ddwy ddogfen interim yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd, heb fod y naill na'r llall yn gwbl ddibynnol ar y llall. Yn Ffigur 1 ceir llinell amser dros dro yn dangos datblygiad cyfochrog y polisi a'r broses adrodd.



Ffigur 1. Llinell amser yn dangos datblygiad cyfochrog Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (PANC) ac Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN).

Y Camau Nesaf

7. Gan dynnu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael am ddulliau o asesu ecosystemau, bydd yr adroddiad interim yn dangos ein dull arfaethedig o adrodd ar:
   - Sefyllfa adnoddau naturiol;
   - Tueddiadau yn sefyllfa adnoddau naturiol;
   - Oblygiadau'r sefyllfa a'r tueddiadau a ddisgrifir ar gyfer lles;
   - Y peryglon i barhad cyflenwad y buddion allweddol sy'n deillio o adnoddau naturiol.

8. Mae'r grŵp llywio wedi cytuno y dylai ein dull o ymdrin â'r gofynion hyn adlewyrchu'r meddylfryd sylfaenol y tu ôl i'r dull ecosystem a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol a'r Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol[1] (NCC) (Ffigur 2). Ar ben hynny, mae'r grŵp wedi amlygu dau o'r dadansoddiadau a gyflwynir yn ail adroddiad y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol ar Sefyllfa Cyfalaf Naturiol fel rhai a ddylai fod yn ffocws penodol yn yr adroddiad interim. Dadansoddiad o sefyllfa asedau naturiol (adran 2 yn adroddiad y NCC) a dadansoddiad ar wahân o'r risg i ddarparu buddion allweddol dethol yn y dyfodol (adran 3 yn adroddiad y NCC) yw'r rhain - gweler Atodiad 2 am enghreifftiau o allbynnau. Wrth ddatblygu dadansoddiadau cyfatebol i Gymru, byddem yn cyflawni dau o ddisgwyliadau penodol Llywodraeth Cymru yn yr AaSAN - adrodd ar sefyllfa adnoddau naturiol a darparu gwybodaeth a all helpu i lywio lle y bydd yr angen mwyaf o ran ymyriadau polisi.

---

https://www.naturalcapitalcommittee.org/home.html

a)



b)



Ffigur 2. Fframweithiau cysyniadol a ddatblygwyd gan a) y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol a b) yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol

9. Cynhaliwyd gweithdy gennym, gyda chymorth Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru, ar 4 Medi yng Nghanolfan Amgylchedd Cymru, Bangor, i archwilio, a chael adborth ar y cynigion uchod. Dyma oedd ein cam cyntaf i ymgysylltu â phartïon allanol dethol mewn cysylltiad â datblygiad yr AaSAN. Rhagwelir lefel uwch o ymgysylltu ehangach ar ôl mis Tachwedd wedi i ni gwblhau'r adroddiad interim. Rydym wedi dechrau datblygu cynlluniau ar gyfer y gweithgaredd hwn gyda'n tîm Cyfathrebu.

Risgiau

10. Y prif risgiau yn y tymor byr (mewn perthynas â'r adroddiad interim) yw:
    - Methiant i gyflawni yn erbyn y disgwyliadau ar gyfer yr adroddiad interim. Rydym wedi ceisio rheoli'r risg hon trwy amlinellu datganiad y cytunwyd arno o amgylch elfennau allweddol yr adroddiad, fel y disgrifir uchod (ac a ddarperir yn Atodiad 1).
    - Gorddibyniaeth ar nifer rhy fychan o staff. Rydym wedi ceisio rheoli hyn trwy gytuno ar gyfraniadau anffurfiol gan staff eraill, yn ogystal â sicrhau sêl bendith i recriwtio aelod staff ychwanegol yn benodol at y diben hwn am 12 mis.

11. Gan edrych y tu hwnt i'r adroddiad interim, mae'r brif risg yn ymwneud ag:
    - Ehangu cwmpas y prosiect gan fod y disgwyliadau o gynnwys grŵp ehangach o bartïon sydd â diddordeb yn dod i'r amlwg drwy ein cynllun i ehangu’r gweithgarwch ymgysylltu. Byddwn yn ceisio rheoli hyn drwy'r grŵp llywio.

Goblygiadau ariannol

12. Y tu hwnt i fis Tachwedd, bydd angen i ni sefydlu tîm prosiect mwy ffurfiol i gyflawni’r AaSAN. Wrth ddatblygu'r adroddiad interim, byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o lefel yr adnoddau fydd eu hangen i gynhyrchu'r AaSAN cyntaf yn 2016. Ar ôl i ni gwblhau’r cynllun ar gyfer adroddiad 2016, byddwn yn gallu amcangyfrif yr anghenion o ran adnoddau yn fwy cywir.

Cyfathrebu

13. Un o ddibenion yr adroddiad interim yw gwasanaethu fel sail ar gyfer ehangu’r drafodaeth ar sut y gallai’r broses adrodd ddatblygu. I gefnogi hyn, rydym wedi datblygu Cynllun Cyfathrebu drafft cychwynnol.

Asesu effaith ar gydraddoldeb (EqIA)

14. Nid oes unrhyw faterion cydraddoldeb yn codi yn y papur hwn.

Mynegai'r Atodiadau

Atodiad 1 - manyleb amlinellol ar gyfer yr AaSAN
Atodiad 2 - dulliau dadansoddol o ail Adroddiad ar Sefyllfa Cyfalaf Naturiol yr NCC

Atodiad 1: Manyleb amlinellol ar gyfer yr AaSAN [fel y cytunwyd gan grŵp llywio Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru]

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu ffordd o sicrhau bod gennym ddealltwriaeth ar y cyd o

- ddiben yr AaSAN (a'r adroddiad interim)
- y gynulleidfa ar gyfer yr AaSAN (a'r adroddiad interim)
- raddfa ofodol y broses adrodd
- cwmpas yr adroddiad
- trefniadau llywodraethu
- rhai egwyddorion cyffredinol fel canllaw ar gyfer cynhyrchu'r AaSAN

Bydd hefyd yn helpu i wneud yn glir yr hyn na fydd yr AaSAN yn ei ddarparu.

Pwrpas yr AaSAN

Prif ddiben yr AaSAN yw adrodd ar statws adnoddau naturiol Cymru er mwyn olrhain y cynnydd a wneir tuag at gyflawni rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Wrth gyflawni hyn, bydd yr AaSAN yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru i bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth i hwyluso dethol yr ardaloedd priodol fel y gall Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu'r blaenoriaethau hynny.

Dylai'r AaSAN hefyd ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i gyflawni nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol cyfraniad adnoddau naturiol i'r nodau hynny.

Mae angen tystiolaeth hefyd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r dull rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal. Bydd yr AaSAN yn cyfrannu at hyn trwy osod y cyd-destun ehangach ar gyfer y gwaith a wneir ar raddfa lai.

Pwrpas yr adroddiad interim

Er bod y fanyleb hon yn nodi'n fras rhai o nodweddion allweddol yr AaSAN, pwrpas yr adroddiad interim fydd nodi'n fwy manwl sut olwg allai fod ar yr AaSAN. Yna fe ddefnyddir yr adroddiad interim fel sail ar gyfer cynnwys set ehangach o gyfranwyr posibl a rhanddeiliaid eraill, gan ganiatáu iddynt gyfrannu at lunio'r adroddiad llawn.

Yn y tymor byr, mae yna angen ychwanegol i ddarparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru i lywio datblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Bydd yr adroddiad interim yn cyfrannu at hyn, ond nid hwnnw fydd yr unig ffynhonnell o dystiolaeth.

Sylwadau:

O ystyried yr amrywiaeth eang o ofynion am dystiolaeth i gefnogi datblygu polisi Rheoli Adnoddau Naturiol a'i weithredu, argymhellir bod yr AaSAN yn cael ei weld fel rhan o gyfres ehangach o weithgareddau sy'n gysylltiedig â thystiolaeth, gan gynnwys y Ganolfan Wybodaeth, gwaith StatsCymru, a ffrwd waith 'Tystiolaeth ac Offer' y Dull Ecosystem a'r Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol. Byddai rhoi'r amrywiaeth ehangach hon o weithgareddau ar waith yn gymorth i wneud yn glir yr hyn y bydd yr AaSAN yn ei gyflawni a'r hyn na fydd yn ei gyflawni.

Mae adroddiad sydd wedi'i gynllunio gyda'r prif bwrpas o olrhain cynnydd yn annhebygol o ddarparu'r fformat gorau posibl ar gyfer cyfathrebu tystiolaeth i gefnogi datblygu polisi. Un ateb posibl ar gyfer cynnig darpariaeth i foddhau'r angen deuol hwn yw datblygu'r AaSAN gydag olrhain cynnydd mewn golwg, ond yn y broses o bennu cwmpas yr AaSAN, dwyn ynghyd ystadegau a dangosyddion sydd eisoes gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol, ynghyd â rhywfaint o gyfeirio at ffynonellau tystiolaeth allweddol eraill (e.e. yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol, y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol).

Y gynulleidfa ar gyfer yr AaSAN

Y nod yn y pen draw yw datblygu dull o adrodd sy'n ddefnyddiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, o lunwyr polisi i ddinasyddion Cymru. Bydd angen ystyried a fydd modd cyflawni hyn fel un cynnyrch unigol neu ar ffurf cynhyrchion wedi'u targedu at gynulleidfaoedd penodol wrth i'r prosiect ddatblygu.

Y brif gynulleidfa ar gyfer yr adroddiad interim yw staff polisi Llywodraeth Cymru, er y bydd rôl hefyd i'r adroddiad yng nghyswllt ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill.

Graddfa ofodol y broses adrodd

Bydd yr AaSAN yn darparu adroddiadau ar lefel genedlaethol, gan ddarparu asesiad Cymru gyfan o gynnydd tuag at reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol.

Dros amser, gallai ffrydiau newydd o dystiolaeth a ddatblygir ar raddfa'r ardaloedd a nodir o dan y dull gweithredu ar sail ardal ddarparu cwmpas ar gyfer adrodd ar raddfeydd gofodol manylach, ond am y tro bernir bod hyn y tu hwnt i gwmpas yr AaSAN.

Cwmpas amgylcheddol yr adroddiad

Bydd cwmpas yr adroddiad yn adlewyrchu'r diffiniad terfynol o 'adnoddau naturiol' a nodir yn Bil yr Amgylchedd. Bydd yr adroddiad yn ymdrin ag ecosystemau morol yn ogystal â rhai daearol.

Trefniadau llywodraethu

Bydd datblygu'r AaSAN yn y lle cyntaf yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio o gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd llywodraethu hefyd yn gweithredu drwy'r Dull Ecosystem a Bwrdd y Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, gyda'r AaSAN yn cyfrannu at gyflawni'r ffrwd waith 'Tystiolaeth ac Offer'.

Ni ddisgwylir y bydd angen i Lywodraeth Cymru drosglwyddo'r AaSAN yn ffurfiol, a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am roi mesurau ar waith i sicrhau ansawdd priodol. Os yw'r AaSAN yn datblygu (yn ôl y disgwyl) mewn ffordd sy'n cynnwys nifer uwch o sefydliadau sy'n cyfrannu, yna bydd angen i'r mecanwaith llywodraethu esblygu i adlewyrchu hyn.

Bydd yr adroddiad interim, fodd bynnag, o natur wahanol i'r AaSAN ei hun, a chynigir bod yr adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r AaSAN.

Rhai egwyddorion gweithredu cyffredinol

Wrth bontio rhwng sefyllfa adnoddau naturiol a'u cyfraniad at gyflawni nodau'r Mesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd yr adroddiad yn tynnu ar fframweithiau cysyniadol presennol a ddatblygwyd drwy fentrau megis yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol a'r Pwyllgor Cyfalaf Naturiol. Ni fydd yr adroddiad, fodd bynnag, yn cynnwys unrhyw ymgais i gyfrifo Cyfalaf Naturiol neu amgylcheddol.

Bydd rhaniad clir o brosesau sy'n ymwneud â:

- Llunio a dehongli tystiolaeth
- Gwerthuso'r dystiolaeth o safbwynt polisi

Dylai tystiolaeth fod yn wrthrychol ac yn wyddonol gredadwy.

Bydd y dystiolaeth (a dehongli'r dystiolaeth) yn cynnwys datganiad clir sy'n adlewyrchu pa mor hyderus yr ydym ynddo, ac yn yr hyn y mae'n ei ddweud wrthym.

Os yw'r AaSAN yn datblygu mewn ffordd sy'n cynnwys nifer uwch o gyfranwyr, byddwn yn ceisio sicrhau consensws ynghylch y dystiolaeth a gyflwynir a'r dehongliad ohoni. Fel hyn, gall trafodaeth ddilynol ganolbwyntio ar yr hyn fydd angen ei wneud (os o gwbl) mewn ymateb i ganfyddiadau yn hytrach nag ar y dystiolaeth ei hun.

Bydd angen i'r AaSAN esblygu dros amser. Bydd rhan o'r broses o gynhyrchu'r AaSAN yn nodi bylchau mewn tystiolaeth, y gallai fod angen eu llenwi'r os yw'r adroddiad i gyflawni'r diben dan sylw. Yn ogystal, bydd angen datblygu rhai elfennau arfaethedig o'r adroddiad (e.e. tueddiadau yn y dyfodol) dros y tymor hir.

Mae'r fersiwn derfynol yn cynnwys diwygiadau a gytunwyd gan Grŵp Llywio'r AaSAN, ar 15 Gorffennaf 2014, ac yn defnyddio enwau llawn (wedi'u diweddaru) yn hytrach na thalfyriadau.

Atodiad 2: Dulliau Dadansoddol o ail Adroddiad ar Sefyllfa Cyfalaf Naturiol y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol (NCC)

Dadansoddiad o'r data ar gyfer asesu sefyllfa asedau naturiol (o adran 2)

Mae'r tabl isod yn dangos yr allbwn cryno o ddadansoddiad o'r data sydd ar gael ar gyfer asesu sefyllfa asedau naturiol yn Lloegr.

Ased	Dangosydd Cyfansawdd	Ansawdd y Data	Dangosyddion Bioamrywiaeth Lloegr –Tuedd [1] (Cyfeirnod y dangosydd mewn cromfachau)
Rhywogaethau	×	A	↘ Rhywogaethau CGB y DU (4a) ↗ Rhywogaethau Gwarchodedig yr UE((4b) (↘↘↘) (↗) (←→) Ffermdir (5) (↘) (↗) (←→) Coetiroedd (5) (↘) (←→) Gwlyptiroedd (5) (↘) (↗) Rhywogaethau morol (5) (↘↘↘) Rhywogaethau ymledol (20)
Cymunedau ecolegol	(✓)	A	←→ Ardaloedd Gwarchodedig (1) ↘ Cynefinoedd Gwarchodedig yr UE(2b) (↘↘↘)Rhywogaethau ymledol (20)
Priddoedd	×	A	Amherthnasol
Tir	(✓)	A	Amherthnasol
Mwynau ac asedau isbridd	(✓)	A	Amherthnasol
Dŵr croyw	✓	A/G	←→ Ansawdd dŵr (21)
Arfordiroedd	(✓)	A	Amherthnasol
Cefnforoedd	×	A/C	↗ Pysgodfeydd (23) ↘ Rhywogaethau ymledol (20) ↗ Llygredd (19)
Atmosffer	×	A	↗ Dyddodiad sylffwr (19) ←→ Dyddodiad nitrogen (19)

Allwedd

Dangosydd cyfansawdd: ✓ data da a dangosydd cyfansawdd sy'n briodol i'r pwrpas; **(✓)** rhywfaint o ddata addas at y diben a dangosydd posibl ar gael; × dim dangosydd cyfansawdd a'r data yn annigonol i bennu statws a thueddiadau ar draws yr holl elfennau

Ansawdd y data: Asesiad mynegol o gyflwr y wybodaeth ynghylch ased naturiol: Coch = prinder data addas, Ambr = rhywfaint o ddata, wedi'i gasglu'n anghyson ar draws elfennau, amser neu ofod, Gwyrdd = data da ar raddfeydd gofodol neu amserol priodol

Dangosyddion Bioamrywiaeth Lloegr: ↗ tuedd ar i fyny (yn gwella); ↘ tuedd ar i lawr (yn dirywio); ←→ dim newid go iawn; amryw o saethau'n dangos bod yna amryw o ddangosyddion ar gyfer yr ased/pwysau. Cyfeirnod y dangosydd mewn cromfachau. CGB = Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

Trwy edrych ar y wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarfer uchod, gwnaed asesiad o'r sefyllfa, wedi'i asesu yn erbyn targedau polisi perthnasol fel mesur procsi ar gyfer lefel yr asedau sydd eu hangen i gefnogi defnydd cynaliadwy:



Risgiau i fuddion sy'n deillio o asedau/adnoddau naturiol (o adran 3)

Mae'r graffeg canlynol yn crynhoi'r allbwn o ddadansoddiad o'r risg i ddarpariaeth buddion sy'n deillio o adnoddau naturiol sy'n gysylltiedig â phrif gategorïau defnydd tir yn y dyfodol.

Based on a new analysis of the available evidence, there are a range of benefits from natural capital that are at high or very high risk.

Clean Water	Much of our drinking water is sourced from upland areas and their declining quality is a source of concern. In addition, the projected growth of urban areas is likely to lead to deterioration in freshwaters and soils, affecting the natural water purification process in these systems.
Wildlife	Wildlife is declining in many places in England but is a particular concern in semi-natural grassland, farmland and freshwater environments owing to poor quality habitats and fragmentation.
Carbon storage	Carbon storage is important for England's contribution to an 'equable climate'. There is the potential for greater carbon storage through improving the condition of mountains, moors and heaths.
Hazard protection	Hazard protection can be significantly improved by changing the way in which land is managed. Better management would reduce soil erosion and make the most of natural processes to manage flood risk through actions such as tree planting and the reinstatement of wetlands.
Recreation	Recreation is of enormous value and benefits that we receive from it can be increased by orders of magnitude by improving the quality of freshwater areas, increasing the amount of woodlands and other recreation areas around towns and cities and increasing urban green-space.
Clean Air	Air quality has improved over recent decades but there are still very high costs associated with it. Negative health impacts related to poor urban air quality are estimated at £9-20bn per annum, so this remains a priority for action.
Marine Fisheries	Wild fisheries are an important resource and are not being managed effectively with long-term sustainability in mind. The gains from improving wild populations could be worth as much as £1.4bn per annum to the economy.